ColegauCymru Rhyngwladol
CollegesWales International



# STRATEGAETH RHYNGWLADOLI

ColegauCymru
Rhyngwladol
CollegesWales
International




“Doedd neb wedi rhoi’r cyfle i mi o’r blaen i gwrdd â phobl newydd ac i wneud ffrindiau newydd dramor. Fe wnaeth pobl fy helpu, roeddwn i'n breuddwydio am wneud cysylltiad yn Ffrainc, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n perthyn."

**Dysgwr Coleg Caerdydd a'r Fro**

ColegauCymru
Rhyngwladol
CollegesWales
International



# Creu dinasyddion a rhwydweithiau byd-eang

# Ein Gweledigaeth

- Cyfoethogi a gwella profiadau addysgu a dysgu
- Codi dyheadau dysgwyr ac ehangu eu gorwelion
- Llywio arfer broffesiynol a gwella'r ddarpariaeth
- Codi proffil gwaith rhyngwladol a wneir mewn addysg bellach



# Ein Gweledigaeth (parhad...)

- Rhannu arfer gorau, gweithio mewn partneriaeth a datblygiad masnachol

- Alinio â strategaethau rhyngwladol ehangach a datblygu partneriaethau pwrpasol

- Dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru i lunio profiad y dysgwr a datblygiad busnes yn y dyfodol



# Blaenoriaethau Strategol



Profiadau Byd-eang Ysbrydoledig



Arweinyddiaeth, Addysgu a Dysgu



Partneriaethau Pwrpasol a Hyrwyddo Cymru



Datblygu Busnes Rhyngwladol

# Profiadau Byd-eang Ysbrydoledig



- Cefnogi colegau i gynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn profiadau rhyngwladol i sicrhau mynediad cyfartal i bob dysgwr a staff

- Hysbysu colegau am yr ystod o gyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael

- Ymgynghori â cholegau ar bob lefel i ddatblygu syniadau newydd ar gyfer rhyngwladoli o fewn y sector

- Myfyrio ar y gweithgareddau rhyngwladol a gyflawnwyd a darparu cyfleoedd i rannu dysgu, llywio arfer gorau ac arloesi ar gyfer y dyfodol

- Gwella cydweithrediad rhwng ColegauCymru, colegau AB a phartneriaid rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gefnogi datblygiad gweithgareddau rhyngwladol arloesol

# Arweinyddiaeth, Addysgu a Dysgu



- Hyrwyddo’n rheolaidd fanteision a gwerth ychwanegol rhyngwladoli i ddysgwyr, staff a cholegau AB i’r Fforwm Penaethiaid
- Datblygu sylfaen dystiolaeth sy’n mesur effaith rhyngwladoli ar ddeilliannau dysgwyr a staff
- Archwilio i wreiddio dimensiwn rhyngwladol mewn rhaglenni dysgwyr gan gynnwys Bagloriaeth Cymru a Sgiliau Hanfodol

# Arweinyddiaeth, Addysgu a Dysgu (parhad...)



- Gwella perfformiad sgiliau lefel uwch mewn cystadlaethau WorldSkills
- Fel rhan o system arfarnu staff colegau, cynhwyswch y dysgu a gafwyd ar gyfle DPP rhyngwladol
- Datblygu a hyrwyddo ystod o gyfleoedd DPP dramor i staff sy'n caniatáu iddynt:
    - gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau proffesiynol
    - rhannu arbenigedd gyda'u cyfoedion ar draws y byd
    - gwella'r ddarpariaeth yng Nghymru

# Partneriaethau Pwrpasol a Hyrwyddo Cymru

- Cael dealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym maes polisi rhyngwladol a chysylltiadau rhyngwladol
- Sefydlu sianeli cyfathrebu gyda Llywodraeth Cymru i rannu llwyddiannau rhyngwladol y sector addysg bellach
- Gweithio gyda'r British Council Cymru i sicrhau bod ei raglenni'n cynnwys addysg bellach a chefnogi datblygiad rhyngwladoli yn y sector
- Hyrwyddo system addysg Cymru dramor mewn partneriaeth ag addysg uwch drwy aelodaeth addysg bellach o Gymru Fyd-eang a Study in Wales



# Partneriaethau Pwrpasol a Hyrwyddo Cymru (parhad...)

- Parhau i gynrychioli'r sector ar Fwrdd Ymgynghorol Llwybrau at Ieithoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr addysg bellach o ddysgu iaith dramor

- Hysbysu partneriaid tramor am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhyngwladol yn y DU a Chymru

- Cynyddu ymgysylltiad cyflogwyr â chystadlaethau WorldSkills

- Parhau i weithio mewn partneriaeth â Fframweithiau Cymwysterau Cenedlaethol (NQFs) y DU a thramor a safonau galwedigaethol at ddibenion meincnodi rhyngwladol

# Datblygu Busnes Rhyngwladol



- Darparu cynnwys addysg bellach i ymgyrchoedd marchnata Study in Wales i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol

- Sefydlu sianeli cyfathrebu gyda thîm masnach a buddsoddi rhyngwladol Llywodraeth Cymru i ddeall beth yw ei flaenoriaethau a sut y gall addysg bellach gyfrannu at godi proffil Cymru dramor

- Rhannu arbenigedd ac arfer da o fewn addysg bellach a gyda sectorau a sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt i feithrin gallu yn y sector

ColegauCymru
Rhyngwladol
CollegesWales
International



"Mae rhaglenni cyfnewid rhyngwladol yn darparu cymaint o brofiadau bywyd gwych i ddysgwyr a staff efallai na fyddent yn cael y cyfle i'w profi fel arall"

**Siân Holleran**

**Rheolwr Prosiect Rhyngwladol ColegauCymru**

ColegauCymru
Rhyngwladol
CollegesWales
International



"Mae ymweliadau datblygiad staff a rhwydweithio ColegauCymru'r gorau i mi fod arno"

**Cynrychiolydd Sefydliad Addysg Bellach**




ColegauCymru
Rhyngwladol
CollegesWales
International